Annwyl Gwsmeriaid

Mae hy ynglŷn â fy llythyr dyddiedig 1 Mai, pan ddywedais wrthych ein bod wedi methu cwblhau ein cynlluniau i agor cangen Swyddfa'r Post yng Ngorsaf Betrol Tregele, Tregele, Cemais, LL67 0DT.

Mae'n dda gennyf roi gwybod i chi ein bod bellach wedi cwblhau ein cynlluniau a bydd y gangen Swyddfa'r Post newydd yn agor yng Ngorsaf Betrol Tregele ddydd Mawrth 07 Awst 2018 am 13:00.

Bydd y gwasanaeth yn un o'n canghennau lleol gyda phwynt gwasanaeth Swyddfa'r Post cynllun-agored â sgrin isel yn rhan o gownter y siop. Gall cwsmeriaid ddefnyddio amrediad eang o wasanaethau Swyddfa'r Post ynghyd â phrynu nwyddau o'r siop. Bydd y gwasanaeth newydd yn cynnig oriau agor hirach, a bydd oriau agor y Swyddfa Bost yn cyd-fynd ag oriau agor y siop.

Mae manylion yr oriau agor a'r prif gynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael i'w gweld drosodd. Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon ag eraill a allai fod â diddordeb yn y gwasanaeth newydd. Os bydd unrhyw newidiadau annisgwyl i'r amserlen, bydd posteri'n cael eu harddangos yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Gobeithiwn y byddwch chi a'r gymuned yn cefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post yn lleol.

Yr eiddoch yn gywir

*Carol Williams*

**Carol Williams**
**Rheolwraig Gweithrediadau'r Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:
comments@postoffice.co.uk

postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd, ac mae gwybodaeth ynghylch sut i wneud hyn ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/privacy

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol - er enghraifft, print bras, sain neu Braille - byddwch cystal â chysylltu â Llinell Gymorth Cwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn testun 03457 22 33 55.**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

| **Oriau agor y Swyddfa Bost a'r gwasanaethau a fydd ar gael** |
|---|
| Llun – Sul 06: 00 – 22: 00 |
| **Post** |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post |
| Signed For |
| Special Delivery |
| Dychweliadau siopa o gartref |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr |
| Parseli Express a chontract |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure) |
| Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol |
| Local Collect |
| Drop & Go |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post |
| Bancio Personol a Busnes: codi arian, adneuon ac ymholiadau balans wrth ddefnyddio cerdyn. Hefyd, adneuo sieciau mewn amlen a slipiau adneuo â chod bar. |
| Archebion Post |
| Moneygram |
| **Talu Biliau** |
| Taliadau bil awtomataidd (cerdyn neu â chod bar) |
| Adlenwi allweddi |
| **Teithio** |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw |
| Atgyfeirio yswiriant teithio |
| |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau |
| **NI FYDD sieciau yn cael eu derbyn ar gyfer talu** |
| **Bydd eich gweithredydd neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk** |